

BETH YDI MENTER SIABOD ?

Mae Menter Siabod yn grŵp gwirfoddol nid-er-elw gafodd ei sefydlu gan bobl o Ddolwyddelan yn 2003. Yn y 12 mlynedd ers hynny fe helpodd i greu brwdfrydedd newydd yn y pentref. Gwnaeth hynny drwy ofyn “Beth sydd ei angen yn Nolwyddelan” ac yna gwneud cais am arian grant i fodloni'r angen hwnnw.

Dros y 30 mlynedd ddiwethaf bu dirywiad yn ansawdd bywyd Dolwyddelan; roedd swyddi yn y diwydiannau traddodiadol yn dod i ben a theuluoedd yn gorfod symud o'r ardal i gael gwaith. Mae'r stori ychydig yn wahanol erbyn hyn.

Gydag arian, cyngor a chefnogaeth oddi wrth y Bartneriaeth Datblygu Gwledig (RDP), Llywodraeth Cymru, yr Awdurdodau Lleol ac eraill, mae Menter Siabod wedi cynnal prosiectau megis rhai adnewyddu Cofeb y Rhyfel, 'Dolwyddelan yn ei Flodau', Diwrnod Hwyl Dolwyddelan, ynghyd â phrosiectau cyfleusterau hamdden, hanesyddol, llyfrau cerdded a beicio, a llawer mwy. Mae'r Fenter yn gweithio'n agos bob amser â Chyngor Cymuned Dolwyddelan, Llywodraethwyr yr Ysgol, a'r gymuned ei hun.



Canolbwynt yr holl waith ydi'r Pafiliwn. Mae hwn yn sefyll ar gaeau chwarae'r ysgol heb fod ymhell o'r orsaf drenau. Mae o'n lle cynnes a chroesawus lle bydd nifer fawr o grwpiau lleol yn cyfarfod ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol ac addysgol (mae manylion *rhai* o'r rhain ar y dudalen flaen). Un o'r rhain ydi'r cyfarfod am sgwrs a sêl pen bwrdd y bydd Eunice Cawley'n ei drefnu bob bore Gwener am 11.00. Mae croeso yno i bawb.

Yn y Pafiliwn bydd y Fenter yn cynnal ei chyfarfod cynllunio unwaith y mis. Mae'r cyfarfod yn lle da i gyfarfod pobl eraill y pentref ac i gymryd rhan mewn prosiectau sy'n gwella ei olwg a'r amgylchedd. Mae'r cyfarfodydd yn agored i bawb (hen a newydd) sydd ag awydd cymryd rhan. *Bydd y croeso yno i chi'n un cynnes.*

Mae'r cyfarfodydd gyda'r nos am 7.30yh ac i'w cynnal nesaf ar:

- ddydd Mawrth y 12^{fed} o Ionawr 2016
- ddydd Mawrth y 23^{ain} o Chwefror 2016

Welwn ni chi yno!

Llogi'r pafiliwn neu ystafell Gwyddelan

Ar werth yn y pafiliwn:

	Busnes/ Masnachol	Aelodau Elusen / Lleol
Bob Awr	£25	£10
Hanner Diwrnod	£50	£15
Diwrnod Llawn	£75	£30

Cardiau cyfarch
Paentiadau
Llyrau cerdded
Jane's Tasty Cakes
Diodydd poeth